Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Dogfen Ymgynghori Statudol: Cynnig i Ymestyn Capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm

**Cyfnod Ymgynghori:**
**Dechrau:** Dydd Llun 8 Rhagfyr 2025
**Gorffen:** Dydd Sul 18 Ionawr 2026

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cydymffurfio gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (F2) Llywodraeth Cymru.

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

## Am beth mae'r llyfryn hwn?

Cafodd y llyfryn hwn ei baratoi ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a'r gymuned ehangach ym Mlaenau Gwent. Mae'r llyfryn yn rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â chynnig y cyngor i ymestyn y capasiti yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Bydd o ddiddordeb neiltuol i rieni/gofalwyr y mae eu plant yn mynychu neu sy'n ystyried mynychu'r ysgol arbennig bresennol.

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg un ai drwy e-bost neu drwy ffonio, fel sy'n dilyn:

- **Anfon e-bost atom: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk neu**
- **Ein ffonio ar: (01495) 311556**



**Geirfa –** Caiff y termau dilynol eu defnyddo drwy gydol y ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. |
| **Anhwylder ar y sbectrwm awtistig** | **Cyflwr** datblygiadol cymhleth sy'n cynnwys heriau parhaus mewn rhyngweithio cymdeithasol, lleferydd a chyfathrebu dieiriau ac ymddygiad cyfyngedig/ailadroddus. Mae effeithiau anhwylder ar y sbectrwm awtistig a difrifoldeb y symptomau yn wahanol ym mhob unigolyn. |
| **Asesiadau ysgol** | Pan fo ysgol yn asesu anghenion disgybl. |
| **Cyngor** | Sefydliad sy'n swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol. |
| **Canolfan adnoddau** | Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Ni fydd datganiad ADY gan bob disgybl sy'n mynychu canolfan adnoddau. Caiff disgyblion eu haddysgu gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu. Weithiau mae disgyblion mewn canolfannau adnoddau hefyd yn cael cyfle i fynychu dosbarthiadau prif ffrwd. |
| **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)** | Mae CYBLD yn gasgliad electonig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgol a ddarperir gan bob ysgol gynradd, canol, uwchradd, feithrin ac arbennig yn y sector a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn (mae mwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru). |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Yn nodi cynnig pob awdurdod **cynllunio lleol** ar gyfer **datblygu** a defnyddio tir yn eu hardal yn y dyfodol. |
| **Datganiad o anghenion addysgol arbennig** | Mae gan blentyn gyda datganiad ADY anawsterau dysgu ychwanegol sydd angen cymorth arbennig. Mae hyn yn golygu:<br>• bod y plentyn yn cael anawsterau wrth ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran, neu<br>• fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu fel arfer ar gyfer plant. |
| **Hysbysiad statudol** | Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol cynnig wedi'i gwblhau. Dim ond os yw Pwyllgor Gweithredol y cyngor yn penderfynu symud ymlaen â chynnig, ar ôl ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori, y gwneir hyn. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Nifer ar y gofrestr** | Nifer y disgyblion mewn ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin). |
| **Oedran ysgol statudol** | Plentyn dros 5 oed a dan 16 oed sy'n gymwys i fynychu ysgol. |
| **Plentyn sy'n derbyn gofal** | Plentyn yng ngofal awdurdod lleol naill ai oherwydd gorchymyn gofal a wnaed gan lys neu gytundeb gwirfoddol gyda rhieni y plentyn i'w letya. |
| **Ysgol arbennig** | Ysgol ar gyfer plant sydd ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd ac na all eu hanghenion cael eu diwallu mewn ysgol brif ffrwd. Yn aml, bydd gan ddisgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad o ADY. |

# Tabl Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adran 1:** Cyflwyniad | 5 |
| **Adran 2:** Y broses ymgynghori | |
| • Gyda phwy ydyn ni'n ymgynghori? | 6 |
| • Trosolwg o'r ymgynghoriad | 6-7 |
| • Ymgynghori â phlant a phobl ifanc | 7 |
| **Adran 3:** Y cynnig | |
| • Amcanion buddsoddi | 8 |
| • Rhesymeg a gwybodaeth gefndir – pam fod angen newid | 9-10 |
| • Y galw am leoedd | 10-11 |
| • Darpariaeth blynyddoedd cynnar a meithrin | 11 |
| • Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol | 12 |
| • Opsiynau a ystyriwyd | 12-13 |
| • Risgiau a mesurau lliniaru | 13-14 |
| • Buddion y cynnig | 14 |
| • Buddion a manteision disgwyliedig (o gymharu â'r *status quo* – gwneud dim byd) | 14 |
| • Anfanteision | 14 |
| • Model llywodraethiant | 15 |
| • Trefniadau teithio dysgwyr | 15 |
| **Adran 4:** Canlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf | |
| • Adroddiad yr ymgynghoriad | 15 |
| • Hysbysiad statudol | 15-16 |
| • Penderfyniad ar y cynnig | 16 |
| • Hysbysiad o'r penderfyniad | 16 |
| • Amserlen y broses statudol | 16 |
| **Adran 5:** Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt | |
| • Data ar leoedd a rhagamcaniadau disgyblion | 16 |
| **Adran 6:** Ystyriaethau eraill | |
| • Cyllid | 17 |
| • Trefniadau derbyn | 18 |
| • Effaith y cynnig ar y Gymraeg | 18 |
| • Sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb | 18 |
| • Asesiadau effaith ar y gymuned a'r Gymraeg | 18 |
| • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) | 18 |
| • Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn | 19 |
| • Costal cyfalaf / derbyniadau cyfalaf | 18-19 |
| • Datblygiadau tai | 19 |
| • Adnoddau dynol | 19 |
| • Partneriaethau | 20 |

**Adran 7:** Y trefniadau presennol
- Estyn 21
- Ansawdd a safonau mewn addysg 21
    - Dysgu 21
    - Llesiant ac agweddau at ddysgu 21
    - Profiadau dysgu ac addysgu 22
    - Gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd 22
    - Arweinyddiaeth a rheolaeth 22-23
    - Argymhellion ar gyfer gwella 23-24
- Effaith y cynnig 24

**Adran 8:** Trosolwg o'r cynnig
- Nifer a threfniadau derbyn a nifer y lleoedd meithrin 24
- Ystod oedran 24
- Lleoedd disgyblion 24
- Capasiti 24
- Lleoliad 24
- Categori ac iaith yr ysgol 24
- Rhestr ystafelloedd ac adeiladau 24
- Rhestr cyfleusterau a ddarperir o dan y cynnig 24
- Dalgylch yr ysgol 24
- Trefniadau pontio 24
- Cwestiynau cyffredin 25

**Adran 9:** Ffurflen ymgynghori 26

**Atodiad 1:** Rhestr ddosbarthu ar gyfer y ddogfen ymgynghori 27

**Atodiad 2:** Sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb 28-29

**Atodiad 3:** Asesiad effaith ar y gymuned 30-32

## Adran 1: Cyflwyniad



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adolygu capasiti ei ysgolion yn flynyddol. Felly mae'r cyngor yn ymateb i'r cynnydd mewn galw a thwf a nodwyd dros y tair blynedd ddiwethaf, yn unol â cheisiadau am leoli disgyblion yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm.

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn darparu ar gyfer disgyblion (rhwng 3 ac 19 oed) gyda sbectrwm eang o anghenion addysgol a meddygol arbennig cymhleth, yn cynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent ynghyd â rhai disgyblion o'r tu allan i'r sir.

Cenhadaeth yr ysgol yw: ***Grymuso a chefnogi unigolion i fod yn gryf ac yn annibynnol ac i ddatblygu sgiliau i gyrraedd eu potensial.***

Caiff dysgwyr eu haddysgu mewn 21 grŵp dosbarth a byddai gan ddosbarth arferol un athro a dau neu dri chynorthwyydd dysgu, gyda thua wyth i ddeg o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae trefniant pob dosbarth yn llwyr ddibynnol ar anghenion y disgyblion. Mae'r gymhareb oedolion/disgyblion yn sicrhau y gellir darparu ar gyfer anghenion gofal ac addysgol unigol y disgyblion. Caiff yr ysgol ei chefnogi gan wasanaethau iechyd fel ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, a therapi lleferydd ac iaith.

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn yr un lleoliad â chyfleusterau cyfnod cynradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (mae'r ddwy ysgol yn yr un adeilad). Mae'r cyfleusterau'n cynnwys: ystafelloedd dosbarth pwrpasol, ystafell adlam, pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd hylendid, swyddfa nyrs, campfa ac ystafell chwarae meddal. Yn allanol mae gan yr ysgol ardd synhwyraidd awyr agored ac ardal chwarae antur ynghyd ag ardaloedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Ar ben hynny, mae darpariaeth dros dro ar gyfer dysgwyr ôl-16 wedi'i sefydlu mewn lleoliad arall yng Nglynebwy i fodloni'r galw ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25; o fis Mai 2025, mae hon bellach wedi'i meddiannu.

## Adran 2: Y broses ymgynghori

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ar y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm, mae'n ofynnol i'r cyngor gynnal ymgynghoriad statudol gyda phawb sydd â diddordeb ac yr effeithir arnynt. Mae angen gwneud hyn oherwydd y bydd y cynnig yn gweld cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol a fyddai, wrth ei ystyried ochr yn ochr ag achosion blaenorol o gynnydd mewn capasiti, yn cynyddu nifer y disgyblion o 10% neu'r nifer berthnasol o ddisgyblion o'r fath (p'un bynnag sydd isaf). Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i ymgyngoreion ddysgu mwy am gynnig y cyngor a'i ddeall a mynegi eu barn arno, a fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar sut i symud ymlaen â'r cynnig. Caiff yr adborth a'r sylwadau a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori eu casglu, eu dadansoddi a'u hadrodd drwy brosesau gwleidyddol y cyngor. Bydd Pwyllgor Gweithredol y cyngor wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac adborth cysylltiedig.

**Gyda phwy ydyn ni'n ymgynghori?**
Caiff y ddogfen ymgynghori hon ei dosbarthu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Fersiwn 2 (Tachwedd 2018) Llywodraeth Cymru. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r rhestr lawn o ymgyngoreion a gaiff eu targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

**Trosolwg o'r ymgynghoriad**
Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau **ddydd Llun, 8 Rhagfyr 2025**, gan ddod i ben **ddydd Sul, 18 Ionawr 2026**. Gall ymgyngoreion gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig, ond dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn eu nodi fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Pe byddai'r cynnig yn symud ymlaen, a bod ymgyngoreion yn dymuno gwrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol a amlinellir ar dudalen 15/16.

Hoffai'r cyngor i chi ystyried yr wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon a rhoi eich sylwadau ar y cynnig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ar yr wybodaeth o fewn y ddogfen, gallwch gysylltu â ni naill ai drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost islaw neu drwy ein ffonio ar (01495) 311556.



21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk




Gallwch roi eich barn ar y cynnig gan ddefnyddio'r holiadur ymgynghori yn Adran 9. Mae croeso i chi hefyd lenwi'r arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: https://online1.snapsurveys.com/dxns7v

Dylid dychwelyd pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn **5pm ddydd Sul, 18 Ionawr 2026, fan bellaf**.

Mae’r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithwir gyda’r undebau llafur a sesiwn galw heibio isod ar gyfer pob corff llywodraethu’r ysgolion yr effeithir arnynt, staff, rhieni disgyblion a’r gymuned ehangach drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Ym mhob un o’r digwyddiadau isod yn **Nhabl 1**, bydd swyddogion y cyngor ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

**Tabl 1: Sesiynau galw heibio**

| Lleoliad | Dyddiad | Amser(au) | Sesiwn wedi’i hanelu at: |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod rhithwir drwy gyfrwng Teams | 10 Rhagfyr 2025 | 9:00am–10:00am | Cynrychiolwyr yr undebau llafur |
| | | | |
| Canolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy, Stryd James, Glynebwy, NP23 6JG | 10 Rhagfyr 2025 | 3:00pm – 6.30pm | Corff llywodraethu, yr holl staff, rhieni a’r gymuned ehangach |
| | | | |

**Ymgynghori â phlant a phobl ifanc**
Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Arbennig Pen y Cwm, ynghyd â phlant a phobl ifanc eraill sy’n debygol o fynychu’r ysgol, gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ffurfio rhan o adroddiad all-dro yr ymgynghoriad.

## Adran 3: Y cynnig

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae’r Gwasanaeth Cynhwysiant wedi cynnal dau ymgynghoriad ar gynigion a effeithiodd ar nifer y lleoedd ym Mhen y Cwm ac adolygiad ledled y fwrdeistref mewn canolfannau adnoddau mewn addysg brif ffrwd. Dyma ganlyniad yr ymgynghoriadau hyn a’r cynigion a weithredwyd:

- Medi 2021: Cynnydd yng nghapasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 o leoedd i 175 o leoedd gyda Rhan 2 o’r cynnig yn cynnwys datblygu cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol i hwyluso twf cynaliadwy (“cynnig 2021”)
- Medi 2024: Cynnydd mewn canolfannau adnoddau anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg brif ffrwd ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd

Mae’r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2021 i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o ddysgwyr yn 2026, sy’n fwy na 10% o gyfanswm capasiti’r ysgol. Mae hefyd yn datblygu elfennau o Ran 2 o gynnig 2021. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig ymestyn y capasiti yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 205 i 250 o leoedd yn y tymor hir, fel y manylir yn Rhan 2 isod. Er mwyn hwyluso’r capasiti estynedig, ailwampiwyd yr amgylchedd dysgu presennol gan y cyngor i greu lleoedd ystafell ddosbarth ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig, h.y. toiledau. Yn ogystal, ac ochr yn ochr â hyn, nododd y cyngor y byddai angen symud y ddarpariaeth ôl-16 o’i lleoliad presennol ar y safle a’i rhoi yn Vision House, Glynebwy, sy’n creu darpariaeth fwy cynaliadwy lai na hanner milltir o’r adeilad presennol. Mae’r cyngor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda’r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygu cynaliadwy. Felly, bydd y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno mewn dwy ran:

- **Rhan 1:** Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Bydd hyn hefyd yn cynnwys:
    - Cydnabod yn ôl-weithredol y ddarpariaeth ôl-16 yn Uned 4, Safle'r Ŵyl, Glynebwy (gan gynnwys tair ystafell ddosbarth, ystafell synhwyraidd, ystafell gyffredin, ystafell sgiliau bywyd, ystafell gyfarfod, ardal arlwyo/fwyta, toiledau a chyfleusterau hylendid)
    - Cydnabyddiaeth ôl-weithredol o ystafelloedd dosbarth ychwanegol a ddatblygwyd ym mhrif adeilad yr ysgol

- **Rhan 2:** Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm ymhellach o 205 i 250 o leoedd i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2030/31. Bydd hyn yn cynnwys parhau â datblygiad y cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol, gan gynnwys naill ai darpariaeth adeilad newydd ar y tir gerllaw'r ysgol neu ailwampio adeilad presennol yr ysgol i ddarparu ar gyfer y capasiti cynyddol.

Byddai'r cynnig yn cefnogi gweledigaeth Blaenau Gwent ar gyfer addysg, sydd fel a ganlyn:

***Grymuso ein cymunedau i fod yn ddysgwyr gydol oes sy'n uchelgeisiol, egwyddorol a gwybodus ac sy'n byw bywydau llawn ac iach.***

Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion buddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif) Blaenau Gwent, sef:

- **Amcan Buddsoddi 1:** Codi safonau a chyflawniad yn unol â thargedau lleol yn y cyfnod sylfaen, CA2, CA3 a CA4, a sicrhau cyfnod pontio gwell i ddysgu ôl-16 – byddai'r rhaglen yn caniatáu cyfleusterau addysg ac ymgysylltu gwell i ddisgyblion a rhieni fel ei gilydd, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu pawb.
- **Amcan Buddsoddi 2:** Creu model cynaliadwy ar gyfer ystad yr ysgolion, ynghyd â chyflwr ac addasrwydd adeiladau – byddai'r rhaglen yn lleihau costau cynnal a chadw sydd wedi cronni ac yn gwella meysydd allweddol o ystad yr ysgolion ac, o ganlyniad, yn creu ystad ysgolion fwy cynaliadwy.
- **Amcan Buddsoddi 3:** Sefydlu rheolaeth a darpariaeth effeithiol o leoedd ysgol drwy sicrhau bod yr ysgolion cywir o'r maint cywir yn y lle cywir – byddai'r rhaglen yn creu ysgolion sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y boblogaeth disgyblion bresennol a'r boblogaeth a ragwelir ynghyd â'u teuluoedd; bydd hyn yn sicrhau bod y cyfleusterau'n gallu diwallu anghenion lleol a rhanbarthol.
- **Amcan Buddsoddi 4:** Gweithredu'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn unol â pholisi trefniadaeth ysgolion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol – byddai'r rhaglen yn cefnogi gweithredu datblygiadau strategol a pholisi allweddol, gan gynnwys yr agenda ysgolion bro a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- **Amcan Buddsoddi 5:** Diwallu anghenion dysgwyr agored i niwed – byddai'r rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion cyfredol ac anghenion a ragwelir o ran y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY o safbwynt dysgu a hamdden/chwarae. Yn ogystal, byddai'r rhaglen yn cynorthwyo ymgysylltu â rhieni a disgyblion sydd angen cefnogaeth barhaus ychwanegol er mwyn sicrhau presenoldeb cyson a safonau dysgu a chyrhaeddiad gwell.

**Rhesymeg a gwybodaeth gefndir – pam fod angen newid**





Mae Pen y Cwm yn ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ar draws ystod oedran 3–19 sydd ag amrywiaeth eang o anableddau ac anawsterau, yn amrywio o ddisgyblion gydag anawsterau dysgu difrifol i anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, amhariad ar y golwg ac amhariad ar y clyw. Mae gan bob disgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae'r ysgol hefyd yn darparu adeiladau a chyfleusterau hygyrch ar gyfer y rhai sydd ag anabledd corfforol ynghyd ag anhawster dysgu.

Agorodd Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn 2012. Cynlluniwyd yr ysgol newydd i fod yn fwy ac yn well ac i ddarparu llawer o gyfleusterau ychwanegol, gan gynnwys ystafelloedd arbenigol ar gyfer technoleg bwyd, gwyddoniaeth a thechnoleg dylunio, a chelf – cyfleusterau a nodwyd gan Estyn, fel rhan o'r broses arolygu yn 2004 ac yn 2010, fod eu hangen er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithlon ar gyfer dysgwyr uwchradd. Adeiladwyd yr ysgol gyda chapasiti o 120 o leoedd yn 2012 ac, ers hynny, mae wedi'i hailwampio i ddarparu ar gyfer 175 o ddysgwyr ychwanegol, gyda'r cynnig i gynyddu nifer y disgyblion i'r lefel honno wedi'i gymeradwyo i'w weithredu ym mis Medi 2021. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r galw am leoedd wedi parhau i gynyddu'n sylweddol ac, ym mis Medi 2024, roedd 175 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae poblogaeth yr ysgol wedi tyfu'n sylweddol ers yr ymgynghoriad diwethaf a gynhaliwyd yn 2021. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol arbennig eisoes wedi llenwi'r lwfans o 10%. O ganlyniad, mae angen i'r cyngor ehangu'r capasiti ymhellach i 205 o leoedd. Mae buddsoddiad mawr gan y cyngor ar ffurf grantiau ADY eisoes wedi gwella'r gofod hyblyg sydd ar gael ac ardaloedd arbenigol. Fodd bynnag, mae pob un o'r cyfnodau (cyfnod sylfaen / cynradd / uwchradd / ôl-16) yn dal i gael eu peryglu o ran hyblygrwydd a gofod. Dyna pam mae angen adleoli'r ddarpariaeth ôl-16.

Yn ogystal, mae symud y ddarpariaeth ôl-16 wedi caniatáu dileu gwrthdaro amserlennu ym mhob un o'r cyfleusterau arbenigol, e.e. celf, technoleg bwyd, y gampfa, y pwll hydro a'r man ffitrwydd awyr agored, a ddeilliodd o'r niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn Vision House yn cynnwys: tair ystafell ddosbarth, ystafell gyffredin, man byw annibynnol, ystafell TGCh a chyfleuster celf / dylunio a thechnoleg, yn ogystal â chyfleusterau lles staff.

Mae nifer y disgyblion a'r galw am leoedd yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at fwy o geisiadau i'r ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael a bodolaeth rhestr aros, sydd, ym mis Awst 2025, â dau blentyn a pherson ifanc yn aros am le. Mae nifer o ffactorau'n gysylltiedig â'r cynnydd hwn, gan gynnwys cyfraddau goroesi uwch ar gyfer plant ag anableddau cymhleth, mwy o achosion a/gwell diagnosis, a chynnydd mewn cyflyrau meddygol cymhleth. Felly, mae'r cyngor yn ceisio cynyddu'r capasiti (o ran nifer y lleoedd) yn yr ysgol o 175 i 205 ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 ac o 205 i 250 ar gyfer blwyddyn academaidd 2030/31.

Ym mis Medi 2025, roedd 189 o ddysgwyr yn yr ysgol gyda dau gais am le yn aros am gymeradwyaeth gan y panel ADY. Ym mis Awst 2025, gadawodd naw disgybl. Fodd bynnag, fel y manylwyd uchod, mae'r galw'n parhau i gynyddu. Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm arbenigol iawn i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Bydd gan bawb sy'n mynychu'r ysgol anghenion na ellir eu diwallu mewn ysgol lai arbenigol a/neu brif ffrwd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd ystod o anghenion eilaidd, sy'n cynnwys anghenion meddygol, lleferydd ac iaith, neu gorfforol, neu sy'n deillio o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae'r cyngor yn rhagweld tuedd barhaus ar i fyny o ran galw / nifer y disgyblion yn y dyfodol. Mae'r galw am leoedd yn yr ysgol yn parhau ac, o ganlyniad, mae'n rhoi pwysau ar y cyngor i leoli disgyblion y tu allan i'r sir os nad ydym yn gallu sicrhau lleoedd ychwanegol yn lleol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ceisio mynd i'r afael â'r materion uchod drwy gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm i fodloni'r galw cynyddol am leoedd a sicrhau twf yn y tymor canolig. Er mwyn bodloni'r capasiti cynyddol, mae'r ddarpariaeth ôl-16 wedi'i lleoli yn Uned 4, Llys Gwent, (Vision House) Glynebwy, o fewn hanner milltir o adeilad presennol yr ysgol.

**Y galw am leoedd**

O fewn Blaenau Gwent, mae nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi cynyddu. Ym mis Medi 2025, roedd 841 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ag ADY, sy'n cyfateb i 9.9% o'r disgyblion oedran ysgol statudol (8,495) yn y fwrdeistref sirol.

Mae Ffigur 1 isod yn darparu gwybodaeth hanesyddol a rhagfynegol ynghylch tueddiadau lleoli a gofynion lleoli disgwyliedig yn y dyfodol yn yr ysgol.

**Ffigur 1: Tuedd a rhagamcanion chwe blynedd lleoli disgyblion Pen y Cwm (yn seiliedig ar feini prawf cryfach ar gyfer derbyn/ymadael)**

| | | | | | | | Rhagfynegiad yn seiliedig ar duedd chwe blynedd yn seiliedig ar feini prawf cryfach | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr (dechrau'r flwyddyn academaidd) | 140 | 146 | 160 | 162 | 168 | 175 | 189 | 200 | 205 | 201 | 201 | 199 |
| Nifer y ceisiadau | 28 | 23 | 22 | 28 | 32 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 |
| Nifer y ceisiadau a gytunwyd | 19 | 19 | 15 | 16 | 24 | 23 | 14 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Nifer y rhai sy'n gadael | 13 | 5 | 13 | 10 | 17 | 9 | 3 | 12 | 21 | 17 | 19 | 12 |
| Cynnydd net | 6 | 14 | 2 | 6 | 4 | 14 | 11 | 5 | -4 | 0 | -2 | 5 |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr (diwedd y flwyddyn academaidd) | 146 | 160 | 162 | 168 | 175 | 189 | 200 | 205 | 201 | 201 | 199 | 204 |

**Ffigur 2: Rhagamcanion estynedig ar gyfer lleoli disgyblion Pen y Cwm 2031–39 (yn seiliedig ar feini prawf cryfach ar gyfer derbyn/ymadael)**

| | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 | 2035/36 | 2036/37 | 2037/38 | 2038/39 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr (dechrau'r flwyddyn academaidd) | 204 | 202 | 207 | 205 | 208 | 219 | 225 | 227 |
| Nifer y ceisiadau | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 |
| Nifer y ceisiadau a gytunwyd | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Nifer y rhai sy'n gadael | 19 | 12 | 19 | 14 | 6 | 11 | 15 | 3 |
| Cynnydd net | -2 | 5 | -2 | 3 | 11 | 6 | 2 | 14 |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr (diwedd y flwyddyn academaidd) | 202 | 207 | 205 | 208 | 219 | 225 | 227 | 241 |

**Noder**, yn **Ffigur 1 a 2,** fod nifer y ceisiadau a gytunwyd wedi'i leihau i 17 oherwydd cryfhau'r meini prawf derbyn/ymadael.

Mae'n anodd rhagweld niferoedd disgyblion mewn perthynas â lleoedd ysgolion arbennig. Fodd bynnag, mae model wedi'i ddatblygu gyda'r nod o ragweld nifer y lleoedd sydd eu hangen, ac mae'r cyngor wedi defnyddio data hanesyddol a thueddiadau cysylltiedig. Mae'r timau Adnoddau a Chynllunio Addysg a Chynhwysiant wedi ystyried nifer y ceisiadau am leoedd mewn ysgol arbennig dros y chwe blynedd academaidd diwethaf, ynghyd â nifer y ceisiadau hynny y cytunwyd arnynt. Rhagwelir y bydd nifer y lleoedd ysgol arbennig y cytunwyd arnynt yn lleihau oherwydd cryfhau'r meini prawf, fel y nodir uchod. Mae'r model hefyd wedi ystyried nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol arbennig yn flynyddol. Drwy dynnu nifer y rhai sy'n gadael o nifer y lleoedd y cytunwyd arnynt, pennir y cynnydd net yn flynyddol. Yn seiliedig ar y niferoedd presennol ar y gofrestr, a'r wybodaeth uchod, y disgwyliad yw y bydd angen lleoedd yn 2026/27 ar gyfer tua 205 o ddisgyblion a rhagwelir y bydd angen dylunio datblygiad Cyfnod 2 ar gyfer tua 250 o leoedd yn y tymor hwy.

Mae'r galw wedi cynyddu ac yn debygol o barhau i wneud hynny yn unol â mewnfudo, cyfraddau goroesi uwch mewn plant gydag anghenion cymhleth, ac, yn olaf, ceisiadau am leoedd gan awdurdodau lleol eraill gyda phroblemau digonolrwydd. Mae Cyngor Blaenau Gwent yn gwybod bod y twf a'r galw am leoedd addysg arbenigol yn cynyddu ledled Cymru. Mae awdurdodau cyfagos wedi cynnal ymgynghoriad ar dwf capasiti ysgolion arbennig i fodloni'r galw, neu'n ystyried gwneud hynny, oherwydd nad oes digon o leoedd. Os nad yw Cyngor Blaenau Gwent yn sicrhau nifer ddigonol o leoedd ar gyfer ei ddisgyblion, mae'n annhebyg y bydd gan awdurdodau lleol cyfagos gapasiti i ddarparu ar eu cyfer, gan arwain at bosibilrwydd o nifer uchel iawn o leoliadau y tu allan i'r sir, cynnydd mewn amser teithio, ac opsiynau addysg lleol llai hygyrch ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed gyda'r lefelau angen uchaf.

**Darpariaeth blynyddoedd cynnar a meithrin**

Nid oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau i greu cyfleuster ar wahân i hwyluso darpariaeth cyn-ysgol. Mae darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer plant oedran meithrin yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Felly ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar y ddarpariaeth hon na newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer gofal plant a'r dull gweithredu integredig sydd yn ei le. Gan fod y ddarpariaeth yn arbenigol, ni fydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth brif ffrwd na chyfrwng Cymraeg a/neu ddarpariaeth o gymeriad crefyddol. Ni fydd unrhyw effaith chwaith ar ddarpariaeth sector preifat neu drydydd sector o'r math hwn.

**Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol**
Byddai'r cynnig i ymestyn y capasiti ac adleoli'r ddarpariaeth ôl-16 wrth hefyd ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer twf a chynaliadwyedd yn creu mynediad cyfartal i amgylchedd dysgu ansawdd uchel sy'n addas i'r 21ain ganrif ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau dysgu difrifol a chymhleth.

**Opsiynau a ystyriwyd**
Cynhaliwyd arfarniad manwl o'r opsiynau er mwyn archwilio ffyrdd y gellid trin y gofyniad ar gyfer lleoedd addysg arbenigol allweddol. Ystyriwyd ffactorau fel lleoliad, safle a math o ddarpariaeth.

Cafodd y rhestr hir o opsiynau a fanylir o fewn Ffigur 3 islaw ei hailwerthuso'n ddiweddarach a chafodd rhestr fer ei llunio, fel y gellid archwilio manteision, risgiau, amserlenni, costau ac ati mewn llawer mwy o fanylion.

Y ffactorau allweddol yw sicrhau lleoedd yn y tymor canol i'r tymor canolig y gellir eu cyflawni dros y flwyddyn academaidd nesaf, er mwyn sicrhau lleoedd ychwanegol o fis Medi 2026 ymlaen.

**Ffigur 3: Rhestr hir o opsiynau**

| Opsiwn | Disgrifiad | Casgliadau |
|---|---|---|
| 1 | Busnes fel arfer – cynnal y *status quo* | Cymharydd sylfaenol safonol yw hwn y mae'n rhaid ei ystyried, ond nid opsiwn gan nad yw'n mynd i'r afael â'r angen a nodwyd. **Gwrthodwyd** |
| 2 | Mwy o adnewyddu i ardaloedd mewnol adeilad presennol yr ysgol | Gwnaethpwyd hyn yn 2021/22 felly nid ydyw'n opsiwn mwyach. **Gwrthodwyd** |
| 3 | Defnyddio'r gofod diwydiannol yn Uned 4 Llys Gwent | Mae hwn wedi'i ddatblygu ac mae'r gofod yn cael ei gydnabod fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. **Wedi'i nodi a'i weithredu'n ôl-weithredol** |
| 4 | Estyn Ysgol Arbennig Pen y Cwm i mewn i adeilad presennol o fewn ystad yr ysgolion | Mae hwn yn opsiwn i'w ystyried; fodd bynnag, bydd yn dibynnu ar nifer y bobl sydd ar y gofrestr ac argaeledd safle. **Wedi'i nodi i'w ystyried yn y tymor hwy** |
| 5 | Adeiladu estyniad bach newydd i adeilad presennol Ysgol Arbennig Pen y Cwm | Mae hwn yn opsiwn i'w ystyried; mae tir ar gael o hyd a bydd ar yr un safle â'r adeilad presennol. **Wedi'i nodi i'w ystyried yn y tymor hwy** |
| 6 | Adeilad newydd ar y tir gerllaw'r ddarpariaeth arbenigol i gefnogi dysgwyr – gallai hyn hefyd fod yn ddull rhanbarthol | Bydd yr opsiwn hwn yn diwallu anghenion yr ysgol ond bydd yn creu lleoedd gwag yn yr adeilad presennol yn y tymor byr. **Wedi'i nodi i'w ystyried yn y tymor hwy** |
| 7 | Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Pen y Cwm (yn debyg i Opsiwn 6) gyda lleoliad preswyl ychwanegol i ddarparu lle i hyd at ddeg o ddisgyblion | Bydd yr opsiwn hwn yn diwallu anghenion yr ysgol ond bydd yn creu lleoedd gwag yn yr adeilad presennol na fyddant efallai'n cael eu llenwi gan leoliad addysg arall. **Gwrthodwyd** |

Mae Opsiwn 3 wedi'i weithredu fel yr ateb i fynd i'r afael â'r problemau capasiti uniongyrchol wrth baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, ac i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd fel ateb tymor byr.

Yr opsiynau ar y rhestr fer i'w hystyried fel rhan o Ran 2 o'r cynnig ac sy'n destun ymgynghoriad wrth benderfynu ar yr ateb tymor hir yw fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer – cynnal y *status quo*
- **Opsiwn 2:** Mwy o adnewyddu i ardaloedd mewnol adeilad presennol yr ysgol
- **Opsiwn 4:** Estyn Ysgol Arbennig Pen y Cwm i mewn i adeilad presennol o fewn ystad yr ysgolion
- **Opsiwn 5:** Adeiladu estyniad bach newydd i adeilad presennol Ysgol Arbennig Pen y Cwm
- **Opsiwn 6:** Adeilad newydd ar y tir gerllaw'r ddarpariaeth arbenigol i gefnogi dysgwyr – gallai hyn hefyd fod yn ddull rhanbarthol
- **Opsiwn 7:** Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Pen y Cwm (yn debyg i Opsiwn 6) gyda lleoliad preswyl ychwanegol i ddarparu lle i hyd at ddeg o ddisgyblion

Mae opsiynau 1, 2, 6 a 7 wedi cael eu gwrthod gan y byddent o bosibl yn:

- Peidio â mynd i'r afael â'r angen uniongyrchol a thymor canolig
- Achosi mwy o aflonyddwch o fewn y system addysg bresennol ar y ddau safle ysgol
- Gofyn am gyllid helaeth i greu'r amgylcheddau dysgu cywir
- Cael effaith ar ystad yr ysgolion

**Risgiau a mesurau lliniaru**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hanes profedig o reoli prosiectau adeiladu a threfnu ysgolion drwy ad-drefnu ysgolion a'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – gan gynnwys y gofyniad i gynyddu capasiti ysgolion. Gellir rheoli'r risgiau canlynol a'u lliniaru i raddau helaeth fel a ganlyn:

**Ffigur 4: Risgiau a mesurau lliniaru**

| Risg | Mesur lliniaru |
|---|---|
| **Os na chaiff y cynnig ei symud ymlaen, mae risg lleoli a risg ariannol o ran sicrhau darpariaeth addas y tu allan i'r sir i ddysgwyr** | Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr allweddol i ddarparu ateb lleol sy'n gosteffeithiol ac yn lleihau nifer y disgyblion sy'n teithio i leoliadau cyfyngedig y tu allan i'r sir, ac yn eu cyrchu. Fodd bynnag, mae gan y cyngor hanes profedig o weithio i sicrhau lleoliadau priodol i ddysgwyr ledled y rhanbarth. |
| **Nid yw'r broses ymgynghori yn mynd i'r afael â safbwynt a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r cynnig ac felly nid oes cefnogaeth iddo ac nid yw'n cael ei ddatblygu** | Mae gan Gyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Blaenau Gwent brofiad helaeth mewn cynnal ymgynghoriadau ar gynigion ac wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar, gan gydymffurfio'n llawn â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Fersiwn 2, 2018). |
| **Mae'r cynnig i ehangu'r ysgol yn cael ei gyflwyno'n hwyr a/neu dros y gyllideb** | Mae cynlluniau cyflawni ar waith a gellir eu hwyluso ar gyflymder yn unol â chanlyniad y prosesau statudol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn, h.y. ymgynghoriad a hysbysiad statudol. Mae cyllid cyfalaf wedi'i sicrhau i gyflawni'r cynnig. |

| | |
|---|---|
| **Capasiti annigonol ar gyfer y galw yn y dyfodol** | Diben y cynnig hwn yw adeiladu capasiti ychwanegol i ddiwallu'r galw yn y dyfodol a chaniatáu i'r cyngor fonitro ac archwilio opsiynau hirdymor i sicrhau twf cynaliadwy. |
| **Mae costau cyfalaf/adeiladu'r prosiect yn fwy na'r gyllideb** | Mae'r tîm prosiect o Flaenau Gwent a adeiladodd yr ysgol yn adnabod y safle, y gwasanaethau a'r cyfleuster yn dda iawn ac felly mae'r amcangyfrifon cost yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth wirioneddol, gyda chynllun wrth gefn wedi'i gynnwys i fynd i'r afael ag unrhyw bethau anhysbys. Cynhelir monitro cyllideb yn rheolaidd, ynghyd â phrosesau peirianneg gwerth a rheoli newid. |
| **Yn cyfrannu at allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) uchel** | Targedu technolegau $CO_2$ isel costeffeithiol sy'n gydnaws â thechnolegau presennol yr ysgol. Bydd sicrhau ateb lleol hefyd yn lleihau ôl troed carbon y cyngor. |

**Buddion y cynnig**

Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl – yn arbennig y rhai gyda'r lefel uchaf o angen – gael eu haddysgu'n lleol. Mae'r cynnig ymhellach yn hwyluso cynhwysiant ac ymagwedd gynhwysol o fewn addysg, gan sicrhau mynediad i gyfleusterau addysg arbenigol o ansawdd uchel a chefnogaeth ar gyfer plant gydag anableddau o fewn y fwrdeistref. Bydd hefyd yn mynd beth o'r ffordd i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli ym marn rhieni o ran cael mynediad i addysg arbenigol a gostwng ôl troed carbon y cyngor sy'n gysylltiedig gyda theithio at ddibenion addysg wrth sicrhau datblygiad ar safle ysgol presennol.

Os nad oes dim yn newid, ni all y cyngor ddiwallu anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai gydag anawsterau dysgu dwys a lluosog, o fewn Blaenau Gwent. Felly byddai angen eu lleoli allan o'r sir ar gost sylweddol, gyda dysgwyr yn gorfod ymdopi â theithiau ysgol hirach a fydd yn effeithio ar deuluoedd a chymdeithasoli ar gyfer llawer o ddisgyblion. Nid yw hyn yn cefnogi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 na gweledigaeth Blaenau Gwent ar gyfer addysg.

**Buddion a manteision disgwyliedig (o gymharu â'r *status quo*):**

- Creu datrysiad lleol fydd yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbennig
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau addysg leol ar gyfer dysgwyr gydag anghenion arbenigol a meddygol
- Trefniadau pontio haws i ddisgyblion sy'n pontio o ysgol brif ffrwd, a chanolfannau adnoddau ym Mlaenau Gwent
- Gostwng costau lleoliadau allan o'r sir ar gyfer dysgwyr wrth sicrhau buddsoddiad lleol o fewn ystad ysgolion Blaenau Gwent
- Gwella mynediad a chyfleusterau i ddysgwyr sy'n ateb y meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth arbenigol y mae Pen y Cwm yn ei chynnig
- Cynyddu capasiti a chynaliadwyedd lleoliadau
- Datrysiad lleol sy'n cynnig gostyngiadau mewn amser teithio, costau teithio ac ôl troed carbon

**Anfanteision:**

Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn.

**Model llywodraethiant**
Ni fydd unrhyw newidiadau i'r model a'r strwythur llywodraethiant presennol o fewn Ysgol Arbennig Pen y Cwm.

**Trefniadau teithio dysgwyr**
Mae Polisi Cludiant Rhwng y Cartref â'r Ysgol ac Ôl-16 (2025/26) y cyngor yn nodi y darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol fel sy'n dilyn:

Bydd y cyngor yn darparu cymorth cludiant ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY):

- os bernir bod trefniadau cludiant yn anaddas yn unol ag anghenion dysgwyr ac wedyn bydd y Gwasanaeth Cynhwysiant yn penderfynu ar drefniadau amgen;
- os nad yw'n addas i'r disgybl gerdded i'r ysgol oherwydd natur eu hanghenion dysgu ychwanegol a/neu anabledd; a/neu
- os yw'r panel ADY yn penderfynu nad oes unrhyw ddarpariaeth addysg briodol o fewn y fwrdeistref sirol sy'n addas i ddiwallu anghenion y disgybl.

Caiff y trefniadau uchod eu hadolygu yn unol â newidiadau i amgylchiadau yn gysylltiedig â gofynion cludiant y disgybl(ion):

Bydd disgyblion sydd angen cludiant anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n byw:

- dros 1.5 milltir (ar gyfer rhai dan 8 mlwydd oed); a/neu
- dros 2 filltir (ar gyfer rhai rhwng 8 ac 16 mlwydd oed)

o'u darpariaeth ADY addas agosaf yn gymwys yn awtomatig am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. *Dylid nodi na ddarperir cludiant mewn achosion lle mae'r ysgol wedi'i dewis gan y rhieni ac nid honno yw'r ddarpariaeth a benderfynwyd gan y panel ADY.

Mae'r cyngor wedi sefydlu proses er mwyn asesu anghenion teithio plant y gallai fod angen cludiant ADY arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar hyn ym Mholisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 2026/27.

Lle trefnwyd cludiant, bydd y Swyddog Cludiant yn cysylltu â'r rhiant ac yn ei hysbysu am y trefniadau. Mewn achosion lle caiff ceisiadau am gludiant eu gwrthod, bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn hysbysiad gan y tîm ADY, hefyd yn nodi eu hawl i apelio.

Mae lleoliad a seilwaith yr ysgol bresennol yn caniatáu i fysiau a thacsis ollwng plant ar ddechrau'r diwrnod ysgol a'u codi ar ddiwedd y diwrnod ysgol, gyda pharcio digonol i staff a phartneriaid allweddol sy'n ymweld.

## Adran 4: Canlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf

**Adroddiad yr ymgynghoriad:** Caiff adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn adroddiad all-dro ar yr ymgynghoriad i gabinet y cyngor ar 23 Chwefror 2026. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan y cyngor bythefnos cyn y gwneir penderfyniad i symud ymlaen neu beidio symud ymlaen i hysbysiad statudol. Gellir gwneud cais am gopi caled drwy'r cyfeiriadau e-bost a nodir uchod. Gall ymgyngoreion hefyd gofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu am gyhoeddiad adroddiad yr ymgynghoriad drwy'r cyfeiriad e-bost uchod.

**Hysbysiad statudol:** Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y cabinet, bydd y cyngor wedyn yn cyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd cyfnod yr hysbysiad statudol yn rhedeg am 28 diwrnod rhwng **dydd Mercher, 25 Chwefror 2026, a dydd Mercher, 25 Mawrth 2026**. Yn ystod y cyfnod

hwn, bydd modd i chi wneud gwrthwynebiadau ffurfiol, pe dymunech wneud hynny, drwy'r cyfeiriad e-bost a roddir yn y llyfryn ymgynghori hwn. Caiff unrhyw faterion a godir gan rai sydd â diddordeb wedyn eu crynhoi a'u cyflwyno i'r cabinet er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ym mis Ebrill 2026. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, caiff copi o'r hysbysiad statudol ei arddangos ar wefan y cyngor ac yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Bydd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gael ar gais.

**Penderfyniad ar y cynnig:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn penderfynu ar y cynnig yn seiliedig ar yr ymatebion a geir i'r hysbysiad statudol. Gall hyn arwain at gymeradwyo'r cynnig, ei wrthod, neu ei gymeradwyo gydag addasiadau.

**Hysbysiad o'r penderfyniad:** Unwaith y gwnaed penderfyniad, anfonir copi electronig ohono at bawb sydd â diddordeb a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad.

**Ffigur 5: Amserlen y broses statudol**

| Rhagfyr 2025 | Rhagfyr 2025 / Ionawr 2026 | Ionawr 2026 | Chwefror / Mawrth 2026 | Mawrth / Ebrill 2026 | Medi 2026 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod ymgynghori | | | | | |
| | | Adroddiad ymgynghori i'r cabinet | | | |
| | | | Hysbysiad statudol | | |
| | | | | Adroddiad gwrthwynebiadau | |
| | | | | Hysbysiad o'r penderfyniad | |
| | | | | | Gweithredu fis Medi 2026 |

## Adran 5: Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt



**Data ar leoedd a rhagamcaniadau disgyblion**
Mae gan yr ysgol 175 o leoedd ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae mwy o ddisgyblion ag anghenion sylweddol sydd angen lle ym Mhen y Cwm na'r lleoedd sydd ar gael.

Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar ysgolion prif ffrwd yn y fwrdeistref sirol ac ni fydd y cynnig ychwaith yn cael unrhyw effaith ar Gymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon.

## Adran 6: Ystyriaethau eraill

### Cyllid

### Costau refeniw

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn cael ei hariannu yn unol â Pholisi Ariannu Teg Cyngor Blaenau Gwent. Fel pob ysgol arall yn yr ardal, mae ei chyllid yn cael ei bennu gan nifer y disgyblion a maint safle'r ysgol, ond mae hefyd yn denu cyllid yn rhinwedd y ffaith ei bod yn ysgol arbennig.

Mae rhagweld yn gywir effaith ariannol cynyddu capasiti yn heriol oherwydd sawl ffactor:

- Y gostyngiad posibl mewn cyllid ar gyfer ysgolion prif ffrwd o ganlyniad i drosglwyddo disgyblion.
- Graddau'r costau a osgoir drwy leoli disgyblion ym Mhen y Cwm yn hytrach nag mewn lleoliadau y tu allan i'r sir.
- Lefel yr incwm a gynhyrchir drwy adennill arian gan awdurdodau lleol eraill sy'n lleoli disgyblion ym Mhen y Cwm.

Yn y flwyddyn academaidd 2024/25, roedd gan Flaenau Gwent 23 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu haddysgu y tu allan i'r awdurdod, ar gyfanswm cost o £703,533. Ym mis Medi, mae rhagamcanion ar gyfer 2025/26 yn dangos y bydd 15 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu'n allanol, gyda chostau cysylltiedig o £615,604.

I ddangos y gofynion ariannu yn seiliedig ar nifer y disgyblion, mae'r dyraniad cyfredol ar gyfer 176 o ddisgyblion yn 2025/26 tua £4.45 miliwn, sy'n cynnwys yr uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl, ffactorau eraill, a chyllid penodol i'r categori.

Wrth i nifer y disgyblion gynyddu yn unol â'r ehangiad arfaethedig, bydd cynnydd cyfatebol mewn costau adeiladau a staffio gan arwain at bwysau cost i'r Cyngor. Bydd yr arfarniad achos busnes / opsiynau yn manylu ar effaith bosibl pob senario ar y Cyngor a lleoliadau ysgolion eraill. Bydd angen archwilio lliniariadau cost i leihau'r effaith ariannol fel rhan o'r arfarniad.

### Costau cyfalaf

Roedd costau cyfalaf Rhan 1 y cynnig, sef creu'r ddarpariaeth ôl-16 yn Uned 4 Safle'r Ŵyl ("Vision House"), tua £150,000 a chawsant eu talu o grant ADY Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig â Rhan 2 y cynnig hwn i'r cyngor, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y rhaglen gyfalaf fel rhan o raglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Amcangyfrifir y bydd y rhain rhwng £8 miliwn a £15 miliwn, yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir.

### Costau cludiant

Nid oedd costau cludiant sy'n gysylltiedig â Rhan 1, sef cyflwyno Vision House fel rhan o Ben y Cwm, yn golygu unrhyw gost ychwanegol i'r ysgol yn y flwyddyn academaidd 2024/25 gan fod disgyblion yn cael eu gollwng yn y ddau safle gan ddefnyddio'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26, bu angen dau fws ychwanegol i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o ddisgyblion, gyda chostau blynyddol rhagweledig yn dod i gyfanswm o £76,950.

Er gwaethaf hyn, mae ateb lleol – fel lleoliad ym Mhen y Cwm – yn cynnig gwell gwerth am arian o'i gymharu â'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â darpariaeth y tu allan i'r sir. Caiff costau cludiant eu hadolygu'n rheolaidd a gallant newid yn dibynnu ar leoliadau disgyblion.

**Trefniadau derbyn**
Caiff derbyn i Ysgol Arbennig Pen y Cwm ei reoli drwy'r panel ADY, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, y Gwasanaeth Cynhwysiant, a meysydd ehangach ym myd addysg. Caiff atgyfeiriadau i'r panel ADY eu gwneud gan y tîm ADY.

**Effaith y cynnig ar y Gymraeg**
Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar nifer ac argaeledd lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn Blaenau Gwent. Nid yw'r cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig. Caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion arbennig yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fydd y cynnig felly yn cael unrhyw effaith ar Fesur y Gymraeg 2011.

**Sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb**
Cynhaliwyd asesiad sgrinio o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn asesu effaith cynigion a phenderfyniadau allweddol ar nodweddion gwarchodedig. Penderfynodd yr asesiad na fydd effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig, tra bydd effaith gadarnhaol ar anabledd (mae mwy o wybodaeth yn **Atodiad 2**). Mae Asesiad Effaith Integredig llawn a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gael ar ein gwefan: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/

**Asesiadau effaith ar y gymuned a'r Gymraeg**
Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned er mwyn asesu effaith y cynigion a phenderfyniadau allweddol ar randdeiliaid a'r gymuned yn ehangach (mae mwy o wybodaeth yn **Atodiad 3**).

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**
Mae'r cyngor, yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol, yn sicrhau y bydd bob amser yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Os gweithredir y cynnig hwn, bydd yn gwireddu manteision i blant a phobl ifanc yn unol â saith nod creiddiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

**Nod creiddiol 1:** Cael dechrau da mewn bywyd
**Nod creiddiol 2:** Cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
**Nod creiddiol 3:** Mwynhau'r iechyd gorau posibl a bod yn rhydd o gam-driniaeth, erledigaeth a chamfanteisio
**Nod creiddiol 4:** Cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
**Nod creiddiol 5:** Cael eu gwrando a'u trin gyda pharch, a chydnabod eu hunaniaeth hiliol a ddiwylliannol
**Nod creiddiol 6:** Cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol
**Nod creiddiol 7:** Peidio bod dan anfantais oherwydd tlodi

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn**
Fel rhan o'r broses ymgynghori hon, bydd Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg y cyngor, mewn partneriaeth â'r ysgol, yn cynnal ymarfer ymgynghori gyda disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, yn ogystal ag ymgysylltu gyda Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent a'r Uwch Gyngor Ysgolion.

**Costau cyfalaf / derbyniadau cyfalaf**

Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol mewn capasiti yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Bydd costau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig. Bydd hyn yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir (e.e. estyniad newydd neu ailwampio adeilad ysgol presennol). Ni chaiff unrhyw adeiladau eu trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig. Yn yr achos hwn, ni fydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf.

**Datblygiadau tai**

Ar gyfartaledd dros y pum mlynedd ddiwethaf, cafodd 79 o dai eu codi ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y lefel hon o dwf yn parhau. Mae gan y darpar gartrefi hyn naill ai ganiatâd cynllunio yn barod, maent yn ceisio cytundeb cyfreithiol, neu maent wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn debyg o gael effaith ar gynllunio lleoedd disgyblion. Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn monitro'r effaith ar ysgolion.

Mae **Ffigur 6** isod yn dangos nifer y datblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Ffigur 6**

| | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, sy'n edrych ar amserlen pum mlynedd, dynodwyd y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Sirhywi**. | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, sy'n edrych ar amserlen pum mlynedd, dynodwyd y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fawr**. | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, sy'n edrych ar amserlen pum mlynedd, dynodwyd y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fach**. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 |
| Cymdeithasau tai: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 | 34 | 0 | 0 |
| Tai sector preifat: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 98 | 40 | 10 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm: | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **113** | **60** | **10** | **12** | 0 | **0** | **34** | **34** | **0** | **0** |

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r dudalen we ganlynol: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/ldp-allocations/

Dengys y data uchod fod dros 397 o ddatblygiadau tai ar y gweill rhwng 2024 a 2029. Mae potensial i hyn gynyddu'r galw o fewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn y dyfodol.

**Adnoddau dynol**

Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol ar adnoddau dynol sy'n deillio o'r cynnig. Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion yn golygu y bydd angen i gorff llywodraethu Ysgol Pen y Cwm gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer y cynnydd arfaethedig mewn capasiti.

Bydd Tîm Datblygu Sefydliadol y cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r corff llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'r prosesau recriwtio dilynol. Lle mae'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n deillio o ganlyniad i gynnydd yn y nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer staff ysgol ar gofrestr adleoli ysgolion.

**Partneriaethau**
Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent asesiad llesiant rhanbarthol yn ystod 2021/22 a adolygodd lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Ngwent. Defnyddiodd yr asesiad ystod eang o wybodaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys data, ymchwil academaidd, tystiolaeth a barn pobl (ymgysylltu) i helpu i ddeall llesiant yng Ngwent. Cymerodd yr asesiad ddull seiliedig ar asedau, yn hytrach na chanolbwyntio ar angen yn unig, i adeiladu ar gryfderau unigolion a chymunedau a'u nodi, a nododd hefyd broblemau a heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Defnyddiwyd y dystiolaeth a'r materion allweddol a nodwyd yn yr asesiad i ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent.

Cynllun Llesiant Gwent 2023–28, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, oedd y cynllun llesiant rhanbarthol cyntaf i gael ei weithredu ar gyfer Gwent. Mae'n nodi amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y rhain yn cael eu cyflawni drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ar gyfer gweithgareddau ar raddfa ranbarthol yn ogystal â thrwy bum grŵp cyflawni lleol ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol Gwent.

**Amcanion:**
- Rydyn ni am greu Gwent tecach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb
- Rydyn ni am weld Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**Camau:**
- Gweithredu i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy
- Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi fforddiadwy a phriodol o ansawdd da
- Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol
- Gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith Egwyddorion Marmot
- Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel

Mae grwpiau cyflawni lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn bodoli ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol i sicrhau bod camau gweithredu a blaenoriaethau lleol yn cael eu cyflawni sy'n cyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Grŵp Cyflawni Lleol Blaenau Gwent, a elwir yn Bartneriaeth Llesiant Leol Blaenau Gwent, wedi datblygu set o flaenoriaethau llesiant lleol, yn seiliedig ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, i helpu i gyflawni'r cynllun llesiant ar raddfa leol:
- Lleihau anghydraddoldebau ymhlith plant, pobl ifanc a phobl hŷn
- Teithio a thrafnidiaeth integredig
- Mynediad at fwyd iach, lleol a fforddiadwy
- Newid hinsawdd a natur

Yr amcanion llesiant a blaenoriaethau lleol hyn yw'r rhai yr ydym yn eu hystyried i fod â phŵer gwirioneddol i sicrhau newid, yn ogystal â bod y rhai mwyaf brys, a dyma hefyd y rhai lle mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod angen grym cyfunol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni a gwella llesiant lleol.

## Adran 7: Y trefniadau presennol

**Estyn**
Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Pwrpas arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn). Cynhaliwyd arolygiad Estyn diwethaf o Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn 2024. Am gopi llawn o'r adroddiad arolygu, defnyddiwch y ddolen a ddarperir: Adroddiad arolygu Ysgol Arbennig Pen y Cwm 2024 (Saesneg yn unig)

**Ansawdd a safonau mewn addysg**
Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod:
**Dysgu:**

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn yr amgylchedd gofalgar a meithringar yn Ysgol Pen y Cwm ac yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn ac yn erbyn eu targedau unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu ystod o sgiliau gwerth chweil sy'n eu helpu i wneud cynnydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol ac mae hyn yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer y dyfodol.
- Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau darllen ar lefel sy'n briodol i'w gallu.
- Mae disgyblion iau yn ymarfer ac yn gwella eu sgiliau ffurfio llythrennau a llawysgrifen yn briodol.
- Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn addas ar draws yr ysgol. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn mwynhau adnabod rhifau sengl gan ddefnyddio ystod o ddulliau amlsynhwyraidd.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu sgiliau corfforol.
- Lle bo'n briodol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Mae'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gryfder penodol yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â staff ac yn datblygu perthnasoedd ymddiriedus a gofalgar priodol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu sgiliau cymdeithasol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dysgu sut i ddeall a rheoleiddio eu hemosiynau. O ganlyniad, ar y cyfan, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
- Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel wrth fynychu'r ysgol ac yn mwynhau'r ystod eang o brofiadau dysgu difyr y mae'r ysgol yn eu cynnig.
- Mae gan ddisgyblion gyfleoedd addas i gymryd risgiau yn eu gweithgareddau lle bo'n briodol. Mae'r rhain yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu sgiliau dyfalbarhad a gwydnwch yn briodol.
- Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymgysylltu'n frwdfrydig mewn ystod o rolau arweinyddiaeth gwerth chweil. O ganlyniad, maent yn cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

**Profiadau dysgu ac addysgu:**

- Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyd-fynd yn fras ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gweithredu gweledigaeth glir eto ar gyfer y cwricwlwm sy'n galluogi'r cwricwlwm i gael ei gynllunio a'i gyflwyno'n effeithiol i ddiwallu anghenion a diddordebau pob disgybl.
- Mae ffocws sylweddol ar gefnogi llesiant a sgiliau annibynnol disgyblion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o 'gynefin' a phrofiadau dysgu dilys bywyd go iawn yn amrywiol.
- Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) y disgyblion.
- At ei gilydd, mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y disgyblion yn eu dosbarth.
- Mae deunyddiau dysgu a chymorth yn cydweddu'n dda ag anghenion unigol disgyblion ac yn adeiladu'n raddol ar ddealltwriaeth y disgyblion.
- Mae athrawon yn dathlu cynnydd y disgyblion drwy gydol y dydd gyda lefelau uchel o ganmoliaeth lafar.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi sy'n atgyfnerthu agweddau ar y cwricwlwm ac yn ategu profiadau ehangach y disgyblion.
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso ac ymarfer sgiliau pwysig y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Mae rhieni'n cael gwybodaeth dda am gynnydd a chyflawniadau eu plentyn trwy'r llwyfannau cyfathrebu digidol ar-lein y mae'r ysgol yn eu defnyddio.

**Gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd:**

- Mae Pen y Cwm yn ysgol gynhwysol iawn lle mae staff yn gwneud i ddisgyblion deimlo'n gartrefol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, a lle mae eu llwyddiannau a'u cyflawniadau'n cael eu dathlu'n llawen. Mae ethos o barch at ei gilydd a chyd-fuddiannaeth yn treiddio'r ysgol. Ym mron pob achos, mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth dda am anghenion a phersonoliaethau disgyblion unigol i deilwra eu cefnogaeth a'u dulliau yn unol â hynny. Mae bron pob aelod o staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, sy'n helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn falch pan fyddant yn yr ysgol.
- Mae cefnogaeth i lesiant disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff cymorth llesiant medrus ac angerddol yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy ac amserol i ddisgyblion.
- Mae diwylliant diogelu cryf sy'n bodloni gofynion ac nad yw'n achos unrhyw bryder.
- Mae nyrs yr ysgol ar y safle yn gweithio'n effeithlon i sicrhau bod disgyblion a theuluoedd yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol drwy roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, darparu cyfeiriadau, a chefnogi atgyfeiriadau at asiantaethau allanol pan fo'n briodol.
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd trawiadol o fframwaith sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n galluogi disgyblion ag anawsterau corfforol sylweddol i symud yn annibynnol yn llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

- Mae'r pennaeth wedi gweithio gyda'r staff i greu pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd a rennir ar gyfer yr ysgol.
- Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yng nghyfnodau cynnar gweithredu cwricwlwm sy'n anelu at gyflawni'r weledigaeth ar gyfer pob disgybl.
- Un o flaenoriaethau'r pennaeth yw datblygu a sicrhau perthnasoedd ystyrlon â staff, teuluoedd a phartneriaid eraill.

- Mae arweinwyr, fel rhan o drefniadau hunanwerthuso, yn dechrau casglu tystiolaeth i'w helpu i wybod am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau gwella sy'n addas ar y cyfan. Fodd bynnag, mae hyn ar gam datblygu cynnar iawn.
- Mae'r corff llywodraethu yn amlwg wedi ymrwymo i'r ysgol ac yn angerddol am lesiant y disgyblion.
- Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar waith i oruchwylio a rheoli ei harian.

Os bernir bod ysgol yn ddigonol neu'n anfoddhaol, bydd yn destun monitro gan Estyn neu'r awdurdod lleol hyd nes y bernir ei bod wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion lle mae angen gwelliant. Ar y cyfan, mae'r asesiad hwn yn ganlyniad da i'r ysgol, gyda dim ond tri argymhelliad ar gyfer gwelliannau.

**Argymhellion ar gyfer gwella**

- **A1:** Gwella'r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan gynnwys cryfhau rôl y corff llywodraethu
- **A2:** Adolygu a datblygu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion, gan gynnwys darparu profiadau dysgu achrededig priodol
- **A3:** Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu

Dyma rai o'r sylwadau o'r arolygiad:

- Mae Pen y Cwm yn ysgol gynhwysol iawn lle mae staff yn gwneud i ddisgyblion deimlo'n gartrefol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, a lle mae eu llwyddiannau a'u cyflawniadau'n cael eu dathlu'n llawen.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o strategaethau sy'n cefnogi anghenion iechyd a nodwyd y disgyblion yn dda.
- Lle bo'n briodol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth yn ystod eu hamser yn yr ysgol.
- Mae'r corff llywodraethu yn amlwg wedi ymrwymo i'r ysgol ac yn angerddol dros lesiant y disgyblion.

**Effaith y cynnig**

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd yn parhau i ddarparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel i gefnogi deilliannau gwell i bob dysgwr. Bydd y cynnig yn sicrhau y cynhelir y safonau rhagorol presennol. Bydd y cynnig hefyd yn cyflawni'r cwricwlwm llawn o'r cyfnod sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4.

Mae llawer o ymchwil a diwygio ADY wedi dangos bod dysgwyr yn cyflawni deilliannau gwell pan fyddant yn ymgysylltu'n llawn â dysgu ac mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Effaith debygol y cynigion ar bum maes Estyn yw:

- **Safonau dysgu:** Bydd effaith y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd a mannau i ddisgyblion gyflawni eu dysgu

- **Llesiant ac agweddau at ddysgu:** Dylai creu mannau ychwanegol wella ymhellach y perthnasoedd sydd gan ddisgyblion â staff, gan eu cynnwys ym mywyd yr ysgol

- **Profiadau dysgu ac addysgu:** Bydd y capasiti a mannau ychwanegol a geir yn y cynnig yn cyfoethogi'r profiad dysgu ac addysgu i'r disgyblion yn yr ysgol

- **Gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd:** Gellir defnyddio mannau eraill o adeilad yr ysgol yn fwy effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

- **Arweinyddiaeth a rheolaeth:** Gallai'r cynnig greu cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol o fewn y tîm uwch-arweinwyr

## Adran 8: Trosolwg o'r cynnig

Mae'r tabl isod yn manylu ar y categori, yr iaith, yr ystod oedran a manylion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ysgol newydd arfaethedig:

| Trosolwg o'r cynnig ar gyfer capasiti | |
|---|---|
| **Nifer a threfniadau derbyn** | Mae derbyniadau i'r ysgol hon yn cael eu cydlynu gan dîm cynhwysiant Blaenau Gwent ar sail angen. |
| **Ystod oedran** | 3–19 oed |
| **Lleoedd disgyblion** | Ar hyn o bryd (Medi 2025), mae 189 o ddisgyblion ar y gofrestr (gan gynnwys y 10% ychwanegol a ganiateir), sy'n golygu bod eisoes mwy o ddisgyblion yn yr ysgol na'r lleoedd sydd ar gael. |
| **Capasiti'r ysgol** | 175 – cynigir cynyddu hyn i 205 ym mis Medi 2026 ac i 250 ym mis Medi 2030/31 |
| **Lleoliad** | Ysgol Arbennig Pen y Cwm<br>Lôn Strand Annealing, Glynebwy, Blaenau Gwent<br>NP23 6AN<br><br>Vision House<br>Uned 4, Llys Gwent, Parc Busnes Victoria,<br>Glynebwy, Blaenau Gwent<br>NP23 8AN |
| **Categori ac iaith yr ysgol** | Ysgol arbennig cyfrwng Saesneg |
| **Rhestr ystafelloedd ac adeiladau** | I'w phenderfynu ar ôl yr ymgynghoriad |
| **Trefniadau a pholisi cludiant** | Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 Blaenau Gwent 2025/26. Cyfeiriwch at Adran 1 am ragor o wybodaeth. |
| **Cost fesul disgybl 2024/25** | £22,489 |
| **Categori'r ysgol (2019)** | Ddim yn berthnasol |
| **Canlyniadau arolygiad Estyn** | Adroddiad arolygu Ysgol Arbennig Pen y Cwm 2024 (Saesneg yn unig) |
| **Categori cyflwr yr adeilad** | A |
| **Categori addasrwydd yr adeilad** | B |

**Dalgylch yr ysgol**
Dalgylch Ysgol Arbennig Pen y Cwm yw pob rhan o Flaenau Gwent gan mai hi yw'r unig ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion 3–19 oed gydag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Ni fydd hyn yn newid fel rhan o'r cynnig hwn.

**Trefniadau pontio**
Dim ond i ddisgyblion ôl-16 sydd â lle yn yr ysgol ar hyn o bryd y bydd newid. Byddai disgyblion a staff wedi ymweld â'r lleoliad dros dro arfaethedig cyn iddynt symud yn nhymor yr haf 2025.

**Cwestiynau cyffredin**

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| **Pryd fyddai'r gwaith adeiladu'n dechrau?** | Cafodd y ddarpariaeth ôl-16 (lleoliad dros dro) ei chwblhau erbyn haf 2025. Bydd y Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn cynnal arfarniad pellach o'r opsiynau ac yn cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru ar gyfer datrysiad parhaol (e.e. adeilad newydd neu ailwampio'r ysgol bresennol). |
| **Beth am y staff?** | Bydd rhywfaint o effaith ar staff ôl-16 gan y byddant ar gampws dros dro. Fodd bynnag, wrth i nifer y disgyblion gynyddu yn y dyfodol, bydd cyfleoedd newydd a byddai'n rhaid i unrhyw benodiadau newydd i'r strwythur staff gael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu a'r cyngor trwy'r trefniadau datblygu sefydliadol ffurfiol, fel sy'n wir ar hyn o bryd. |
| **Pa mor ddiogel fydd y disgyblion a'r staff yn y lleoliad dros dro? Wedi hynny, os bydd y ddarpariaeth ôl-16 yn symud yn ôl i safle'r ysgol, bydd hyn yn cael ei ystyried.** | Mae gan y cyngor hanes eithriadol o gydlynu gwaith i adeiladu adeiladau ysgol ar safleoedd "byw". Bydd defnydd staff a disgyblion o Uned 4 (a elwir yn Vision House) yn dod o dan drefniadau iechyd a diogelwch a chaiff yr uned ei thrin fel estyniad i'r ysgol. Os mai'r ateb parhaol yw adeiladu darpariaeth ôl-16 newydd yn yr ysgol, ni fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar yr ysgol bresennol. Bydd yr ardaloedd adeiladu yn gwbl ar wahân i weithrediad dyddiol yr ysgol a bydd diogelwch y disgyblion a'r staff o'r pwys mwyaf. |
| **Sut bydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?** | Bydd y trefniadau presennol o dan bolisi dysgu 2025/26 ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac ôl-16 yn parhau. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 lai na hanner milltir o'r prif adeilad. |
| **Sut bydd fy mhlentyn yn cael cinio ysgol?** | Ar gyfer dysgwyr ôl-16, byddai prydau bwyd yn cael eu paratoi ar y safle presennol a'u cludo i Vision House, a fydd yn unol â safonau a chanllawiau arlwyo. Mae man gweinyddu arlwyo dynodedig o fewn ôl troed yr adeilad. |

# Adran 9: Ffurflen ymgynghori

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Holiadur ymgynghori

Rhowch eich sylwadau ar y cynnig i ymestyn y capasiti ar gyfer dysgwyr yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm: https://online1.snapsurveys.com/dxns7v

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno dangos pa un o'r dilynol sy'n adlewyrchu eich barn:

| | |
|---|---|
| Rwyf yn cefnogi'r cynnig yn llwyr | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

| |
|---|
| Eich sylwadau: |

Enw: ____________________________________________ Dyddiad: _________
E-bost: __________________________________________________________
Cyfeiriad: ________________________________________ Cod post: ________

**Nodwch os ydych yn:**

**Cynradd:** Athro / Staff ysgol nad yw'n addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Preswylydd lleol / Arall (nodwch) _____________________________

**Uwchradd:** Athro / Staff ysgol nad yw'n addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Preswylydd lleol / Arall (nodwch) ____________________________

**Diolch am roi o'ch amser ac am gyfrannu at yr ymgynghoriad. Caiff eich barn, sylwadau ac ymatebion eu cofnodi a'u hadrodd i Bwyllgor Gweithredol y cyngor yn yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.**

**Datodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd drwy e-bost i:** 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

**Rhaid derbyn yr holl sylwadau erbyn dim hwyrach na 5pm ar ddydd Sul, 18 Ionawr 2026.**

# Atodiad 1: Rhestr ddosbarthu ar gyfer y ddogfen ymgynghori

| | |
|---|---|
| Rhieni (a lle bo'n bosibl darpar rieni), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt | Gweinidogion Cymru |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno | Aelodau etholaethol a rhanbarthol o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan yr ysgol sy'n destun y cynnig |
| Awdurdod cynnal neu ddarpar awdurdod cynnal unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | Estyn |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (yn cynnwys rhai yn Lloegr lle bo'n berthnasol) sy'n debygol o gael eu heffeithio – yn cynnwys yn achos darpariaeth ADY bwrpasol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion ADY ynddi, i ddosbarthu i ysgolion yn eu hardaloedd fel sy'n briodol | Undebau'r athrawon a staff (NUT, NASUWT, ATL, UCAC, UNSAIN, GMB) sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion |
| Awdurdodau esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer lleoliad unrhyw ysgol y mae'n debygol yr effeithir arni | Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol |
| Unrhyw gorff crefyddol perthnasol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | Y comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion | Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan / y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion |
| Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried bod y cynnig yn debygol o effeithio arnynt | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gellir effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin, a hefyd pob lleoliad/darparwr blynyddoedd cynnar gwirfoddol/preifat cofrestredig ym Mlaenau Gwent |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y partneriaethau datblygu ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant lle maent yn bodoli | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ADY, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol gyda diddordeb |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol (Coleg Gwent) | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg |

Yn ychwanegol at yr uchod, caiff y dilynol hefyd eu cynnwys yn y rhestr ddosbarthu:

| | |
|---|---|
| Pennaeth pob ysgol a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Blaenau Gwent | Cyfarwyddiaethau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Pob aelod etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Blaenau Gwent |
| Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | Llyfrgelloedd |
| RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) | SNAP Cymru |

# Atodiad 2: Sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb

## Ffurflen sgrinio

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth gyswllt y maes gwasanaeth:** *(Dylid llenwi pob maes)* | | | |
| **Enw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen:**<br>*Sharon Rowlands / James Coleman* | **Adran / maes gwasanaeth:**<br>*Cyfarwyddiaeth Addysg* | **Rheolwr y gwasanaeth:**<br>*Joanne Watts* | **Dyddiad:**<br>*09/09/2025* |
| **Manylion cyswllt:**<br>*sharon.rowlands@blaenau-gwent.gov.uk / james.coleman@blaenau-gwent.gov.uk* | | **Enw'r polisi arfaethedig:**<br>*Ddim yn berthnasol* | |
| **Gwybodaeth am y polisi** | | | |
| **A ydych yn sgrinio ar gyfer yr effaith ar gydraddoldeb gan bolisi newydd neu bolisi presennol:** Ddim yn berthnasol Dewiswch eitem | | **Sylwadau:**<br>Mae'r sgrinio hwn ar gyfer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm. | |
| **Beth yw nodau ac amcanion y polisi:**<br>*Nid oes unrhyw ddatblygiadau polisi cysylltiedig, ond mae'r cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o fewn y fwrdeistref.* | | | |

**Asesiad o effaith y polisi/arfer ar nodweddion gwarchodedig**

| Nodwedd warchodedig | Effaith gadarnhaol | Effaith negyddol | Effaith niwtral | Rhowch resymau ac unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen |
|---|---|---|---|---|
| Oedran (plant, pobl ifanc, yr henoed) | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Anabledd | ☒ | ☐ | ☐ | Bydd defnyddio'r lleoliad dros dro yn sicrhau mynediad gwell at amgylchedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel sy'n gwbl hygyrch, yn unol â safonau rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd yr ateb parhaol (h.y. safle newydd) yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac yn sicrhau iechyd a diogelwch nifer fwy o ddisgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol ynghyd â gwell llesiant iddynt. |
| Rhywedd | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Hil | ☐ | ☐ | ☒ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crefydd a chred | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Rhyw (gwryw, benyw) | ☐ | ☐ | ☒ | Cliciwch yma i fewnosod testun. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | ☐ | ☐ | ☒ | Cliciwch yma i fewnosod testun. |

***Dangosyddion ychwanegol o risg o ran cydraddoldeb***

*Nodwch os credwch fod gan y polisi/arfer hwn risg uchel, ganolig neu isel fel a ganlyn (1 = Dim effaith; 2 = Effaith fach iawn; 3 = Effaith bosibl; 4 = Effaith debygol; 5 = Effaith ar anghydraddoldeb)*

| | | |
|---|---|---|
| *Plant a/neu bobl ifanc hyd at 16–19 oed* | 1 | *Nodwch unrhyw ddulliau arfaethedig sy'n anelu at liniaru'r risgiau hyn*<br>Cliciwch yma i fewnosod testun. |
| | | |

***Cyflawni'r amcanion cydraddoldeb***

*Nodwch islaw os bydd / sut y bydd eich cynnig yn cyfrannu at yr amcanion cydraddoldeb*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Amcan 1 – Gwneud cydraddoldeb yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau* | *Bydd* ☒ | *Na* ☐ | |
| *Amcan 2 – Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n gwybod am ac yn deall yr agenda cydraddoldeb* | *Bydd* ☒ | *Na* ☐ | Cliciwch yma i fewnosod testun. |
| *Amcan 3 – Gwneud ein gorau glas i ymgysylltu, diogelu a chefnogi'r bobl hynny yn ein cymuned sydd fwyaf ei angen* | *Bydd* ☒ | *Na* ☐ | Cliciwch yma i fewnosod testun. |
| *Amcan 4 – Hyrwyddo dealltwriaeth a derbyniad o amrywiaeth o fewn ein cymunedau* | *Bydd* ☒ | *Na* ☐ | |

***Tystiolaeth ac ymgynghori***

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Ydych chi wedi cynnal unrhyw weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gyda grwpiau a warchodir er mwyn lliniaru unrhyw risgiau o wahaniaethu* | *Do* ☒ | *Naddo* ☐ | *Disgrifiwch y gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd fel rhan o'r broses hon*<br>Ymgynghoriad ffurfiol yw hwn a chaiff ei gynnal gyda'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn casglu eu barn. |

*Nodwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol a allai ddangos yr ystyriwyd anghenion grwpiau gwarchodedig mewn perthynas â'r cynnig penodol hwn*

## Atodiad 3: Asesiad effaith ar y gymuned Ysgol Arbennig Pen y Cwm

Mae asesiadau effaith ar y gymuned yn ffyrdd wedi'i strwythuro i'r cyngor ddeall yn llawn oblygiadau ein penderfyniadau a ph'un ai ydynt yn niweidiol neu wahaniaethol i rai grwpiau neu rannau o'r gymuned. Maent yn ein helpu i ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau'r cyngor o fewn a rhwng cymunedau yn fwy cyffredinol. Bydd y broses o asesu effaith ar y gymuned yn sicrhau bod ein proses gwneud penderfyniadau yn gadarn ac yn effeithio ar bob cymuned o fewn Blaenau Gwent mewn ffordd sy'n sicrhau y cânt eu hystyried yn llawn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r cyngor.

Drwy gynnal asesiadau effaith, mae'r cyngor yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb i'n holl ddefnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr cyflogedig, a'r gymuned ehangach a wasanaethwn.

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn ward De Glynebwy. Gellir gweld proffil y ward drwy glicio ar y ddolen ddilynol:
https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/wards/blaenau_gwent/W05001263__ebbw_vale_south/

Mae nifer o ardaloedd o amddifadedd yn ward De Glynebwy yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019):
https://wimd.gov.wales/explore?lang=cy#&domain=overall&z=12&lat=51.7770&lng=-3.2185

## Y datblygiad a gynigir

Os caiff ei gymeradwyo, byddai Rhan 1 y cynnig yn sicrhau 30 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion sydd angen darpariaeth addysg arbenigol. Byddai'r cynnydd yn dod â manteision sylweddol i ddisgyblion presennol a newydd yr ysgol ynghyd â manteision i'r gymuned ehangach a theuluoedd disgyblion. Bydd Rhan 2 y cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd o 45 arall. Felly, at ei gilydd, mae hyn yn rhoi capasiti o 75 o leoedd ychwanegol i'r ysgol.

**Cyfran y disgyblion:**

Mae cynnig y cyngor yn ceisio sicrhau amgylchedd dysgu o ansawdd uchel parhaus i ddisgyblion yn ein hysgol arbennig. Drwy ymestyn capasiti'r ysgol, bydd y cyngor yn gallu darparu ar gyfer llawer o ddysgwyr y fwrdeistref sydd / neu a fyddai fel arall wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yn unol â'u hanghenion a/neu argaeledd a digonolrwydd lleoedd disgyblion. Mae adeilad yr ysgol ar yr un safle â champws cynradd Cymuned Ddysgu 3–16 Ebwy Fawr a meithrinfa Little Stars yng Nghwm Ebwy Fawr. Mae wedi'i amgylchynu gan fynyddoedd gwyrddlas a choetir tra hefyd wedi'i leoli gerllaw'r Parth Menter. Mae adeilad yr ysgol yn 14 oed.

Ym mlwyddyn academaidd 2024/25, roedd tua 11 o ddisgyblion o'r tu allan i'r fwrdeistref sirol yn cael eu haddysgu yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm, gan ddod â ffynhonnell incwm o £284,905.99 i'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynrychioli 7% o gyfanswm poblogaeth yr ysgol ac mae gweddill y disgyblion yn byw ym Mlaenau Gwent. Bydd argaeledd lleoedd yn y dyfodol i ddisgyblion "o'r tu allan i'r sir" yn amodol ar y galw o fewn Blaenau Gwent yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, mae saith disgybl (3.4%) o'r tu allan i'r sir, gan roi incwm amcangyfrifedig o £228,844.47.

**Cyfleusterau a/neu wasanaethau presennol a gynigir**

Caiff y cyfleusterau dilynol eu cynnig yn Ysgol Pen y Cwm:

- Pwll hydro
- Cyfleusterau TGCh
- Ystafelloedd synhwyraidd
- Ystafell therapi adlam
- Campa a man dysgu
- Cyfathrebu atodol ac amgen
- Mannau dysgu arbenigol fel ystafelloedd technoleg bwyd ac ystafell celf a chrefft

Ni fydd gweithredu'r cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth/gwasanaethau uchod a bydd modd eu cyrchu o hyd gan ddysgwyr ôl-16.

**Amser teithio**

Ni fydd unrhyw effaith a/neu effaith fach iawn o weithredu'r cynnig ar bellteroedd teithio i ddisgyblion presennol. Gan fod y dalgylch yn cwmpasu'r fwrdeistref sirol gyfan, y pellter teithio mwyaf tebygol yw dim mwy nag 8 milltir, sef tua 20 munud mewn car/bws. Bydd pellteroedd / amseroedd teithio yn cynyddu i'r disgyblion hynny sydd wedi cael lle o ymhellach i ffwrdd.

**Sut fyddai rhieni a disgyblion ymgysylltu os cytunir ar y cynnig?**

Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd proses bontio effeithlon a llyfn i sicrhau nad oes fawr neu ddim tarfu os cymeradwyir y cynnig i ehangu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Bydd yr ysgol yn ffurfio rhan o dîm y proseict a bydd yn cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y ddarpariaeth newydd.

Caiff rhieni/gofalwyr a disgyblion wybodaeth berthnasol i'w helpu i ddeall y cynnig a'r gefnogaeth fwyaf addas y gallant ei chynnig i'w plant yn ystod y cyfnod pontio. Bydd yr ysgol hefyd yn cydweithio gydag asiantaethau eraill a, lle bo angen, wrth ddynodi teuluoedd a all fod angen cymorth ychwanegol. Bydd ymgysylltu â rhieni a'r gymuned yn parhau yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y broses hon.

**Y goblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus**

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal gan y caiff y rhan fwyaf o gludiant i ddisgyblion ei darparu gan gerbydau ar gontract. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 dros dro yn Vision House wedi'i lleoli wrth ymyl gorsaf drenau Parcffordd Glynebwy.

**Materion ehangach o ran diogelwch yn y gymuned**

Ni fyddai gan Ran 1 y cynnig unrhyw effaith uniongyrchol ar y gymuned ehangach o safbwynt adeiladu am y rhesymau canlynol:

- o Bydd yr ysgol yn aros yn ei lleoliad presennol. Bydd darpariaeth ôl-16 wedi'i lleoli yn Uned 4 (Vision House).
- o Bydd o fudd i deuluoedd disgyblion ag anawsterau dysgu dwys neu luosog trwy roi addysg i'w plentyn o fewn y fwrdeistref sirol y maent yn byw ynddi.

- Bydd yn darparu mannau dynodedig yn yr ysgol ar gyfer partneriaid allweddol fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnig cefnogaeth unigol i ddysgwyr.

Ni ragwelir unrhyw broblemau sylweddol o ran diogelwch.

Bydd gan Ran 2 y cynnig effaith ar y gymuned ehangach o safbwynt adeiladu. Gall hyn newid, yn dibynnu ar a ychwanegir estyniad neu a fydd adeilad arall yn cael ei ailwampio.

- Bydd yr ysgol yn aros yn ei lleoliad presennol, hyd yn oed os byddwn yn darparu estyniad neu'n ychwanegu lleoliad.
- Bydd o fudd i deuluoedd disgyblion ag anawsterau dysgu dwys neu luosog trwy roi addysg i'w plentyn o fewn y fwrdeistref sirol y maent yn byw ynddi.
- Bydd yn darparu mannau dynodedig yn yr ysgol ar gyfer partneriaid allweddol fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnig cefnogaeth unigol i ddysgwyr.

Ni ragwelir unrhyw broblemau sylweddol o ran diogelwch.

**Beth fyddai'r effaith ar iechyd a llesiant?**

Fel ysgol arbennig, mae'r ffocws ar blant gydag anghenion arbenigol cymhleth, felly disgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a llesiant y rhai sy'n mynychu, a fydd yn cael mynediad i'r safonau uchaf o ran cyfleusterau, addysg a gofal.

**Asesiad o'r effaith ar gludiant**

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi dyletswydd ar y cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed. Yn ogystal â'r plant hynny sy'n gymwys am ddarpariaeth cludiant am ddim oherwydd eu bod yn cyflawni'r meini prawf cymhwystra, mae gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion cludiant dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'n debygol y bydd effaith ar gludiant a theithio, ond bydd unrhyw oblygiadau ar drefniadau cludiant yn fwy cadarnhaol na phetai'r cyngor yn defnyddio darpariaeth o'r tu allan i'r fwrdeistref i ddiwallu anghenion y plant.

**Asesiad o'r effaith ar staff**

Ni fydd unrhyw effaith ar staff presennol ar wahân i'r athrawon dosbarth / staff cymorth ôl-16, er y gall y cynnydd mewn capasiti roi cyfleoedd newydd a gwahanol nad ydynt ar gael mewn ysgol lai. Serch hynny, yn ogystal â'u rôl fel ymgyngoreion statudol, cynhelir ymgynghoriad ystyrlon gydag unrhyw staff yr effeithir arnynt a'r undebau llafur cydnabyddedig ar effaith a chanlyniad posibl yr ymgynghoriad statudol. Cynhelir trafodaethau drwy brosesau ymgynghori ar y cyd a gytunwyd gydag undebau llafur cydnabyddedig (y Cyd-bwyllgor Ymgynghori) ac ymgynghori ar y cyd.

**Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael yn benodol â'r materion digonolrwydd sy'n gysylltiedig â nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer plant ag ADY yn y fwrdeistref a bydd felly yn cael effaith gadarnhaol.